



You matter | Ti'n cyfri

# AROLWG YMGYNGHORIAD GOSOD RHENTI TPAS CYMRU

EIN PWLS TENANTIAID PWYSICAF HYD YMA

HYDREF 2022  
NODDWYR LLAIS Y TENANT



# Arolwg Ymgynghoriad Rhenti TPAS Cymru Hydref 2022

## Cyflwyniad i Bwls Tenantiaid TPAS Cymru

Pwls Tenantiaid yw llwyfan cenedlaethol Cymru sy'n galluogi tenantiaid i ddarparu adroddiadau dienw o'u profiadau, eu meddyliau a'u teimladau yn ymwneud â'u cartrefi a'u cymunedau.

Ar hyn o bryd maent yn cymryd y ffurf ganlynol:

- 1) **Arolygon blynyddol** - pynciau y credwn eu bod yn bwysig ac y mae angen eu holrhain. Ar hyn o bryd mae 2 arolwg blynyddol
  - Arolwg Ynni a Sero Net
  - Arolwg blynyddol 'Beth sy'n Bwysig' yn edrych ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i denantiaid a'u cymunedau
- 2) **Arolygon amserol penodol** rydym yn datblygu gyda rhanddeiliaid fel Llywodraeth Cymru i helpu i ddod â mewnwleidiad i ddatblygiadau polisi
- 3) **Arolygon cynulleidfa benodol** - yn aml nid ydynt yn weladwy gan eu bod wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd penodol e.e. Tenantiaid y SRhP yng ngogledd Cymru ar opsiynau cymorth, tenantiaid Cymdeithasau Tai ar ddiwygio rheoliadau ac ati.

Gobeithiwn fod y canfyddiadau a'r argymhellion yn yr ymchwil hwn yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar yr heriau y mae tenantiaid yn eu profi a'u barn ar Osod Rhenti. Rydyn ni'n credu, trwy wrando ar denantiaid, a rhanddeiliaid, y gellir cael sgysiau agored, gonest a thryloyw.

Cyhoeddir yr holl adroddiadau ar borth Pwls Tenantiaid ar ein gwefan.

<https://www.tpas.cymru/ynghylch/pwls-tenantiaid>

## Tarddiad yr adroddiad hwn

Mae tenantiaid a'r gymdeithas ehangach yn profi ergyd deublyg ar hyn o bryd: Argyfwng costau byw sydd wedi creu chwyddiant prisiau defnyddwyr.

Gosod rhenti ar gyfer y flwyddyn nesaf yw'r pwnc llosg ar hyn o bryd mewn newyddion tai, cyfryngau cymdeithasol a pholisi tai.

Rydym wedi gweld galwadau am rewi rhenti a galwadau gan landlordiaid yn dweud bod angen i rent fynd i fyny i gynnal gwasanaethau gan fod eu costau'n codi'n sydyn. Mae Llywodraeth yr Alban wedi pasio deddfwriaeth i'w galluogi i ymyrryd yn y gwaith o osod rhenti'r sector rhentu cymdeithasol a phreifat.

Ar ôl trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, lanswyd ein harolwg Pwls pwysicaf hyd yma yn edrych ar bwnc Rhenti a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu a beth mae hyn yn ei olygu i denantiaid

**Awduron:** Eleanor Speer a David Wilton

7 Hydref 2022

## Crynodeb Gweithredol

Daeth y 4 thema isod i'r amlwg o'r ymatebion i'r arolwg hwn:

- 1) Mae tenantiaid yn credu bod yn rhaid i fudd-daliadau a thaliadau lles cymdeithasol godi yn unol â chwyddiant ac o leiaf yn unol ag unrhyw gynnydd mewn rhent.
- 2) Dywedodd tenantiaid dro ar ôl tro eu bod eisiau meithrin gwell perthynas â'u landlord sy'n canolbwyntio ar werthoedd tryloywder, cyfathrebu ac ymddiriedaeth ynghylch unrhyw godiadau rhent.
- 3) Mae tenantiaid eisiau i'w landlord ymgynghori'n uniongyrchol â nhw cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith – maen nhw eisiau deall a themlo eu bod yn cael eu clywed.
- 4) Ar gyfer tenantiaid hynny lle mae eu prif incwm yn dod o gyflog gwaith, hoffent weld yr isafswm cyflog yn cael ei gynyddu yn unol â chyflog cyflog byw, fel nad ydynt yn cael trafferth talu eu rhenti.

**Cyn i chi symud ymlaen i ddarllen yr arolwg hwn, hoffem rannu'r dyfyniadau isod gan denantiaid sy'n dangos pwysigrwydd a brys y mater hwn iddyn nhw a'u cartrefi:**

Tenant A: *'Mae'n rhaid i mi gael to uwch fy mhen ond bydd yn rhaid i mi ddewis i fwyta neu i gadw'n gynnes.'*

Tenant B: *'Mae gan Denantiaid a Landlordiaid gyfrifoldeb i'w gilydd. Fel unrhyw berthynas arall, rhaid i ni ymddwyn yn deg ac yn gyfrifol tuag at ein gilydd'*

Tenant C: *'Rydym yn denantiaid, mae angen i'n lleisiau gael eu clywed'*

Tenant D: *'Mae gan bawb hawl i gartref. Mae rhenti cynyddol yn gwadu hyn i bobl yn barhaus'*

Tenant E: *'Mae landlordiaid mewn sefyllfa well na thenantiaid i wynebu'r argyfwng costau byw hwn'*

Tenant F: *'Ni fydd dyhuddo pobl wrth rewi rhenti yn gyflym yn helpu neb. Bydd yn taro pobl fregus ac yn torri ar raglenni a gwasanaethau eraill.'*

Roedd y Pwls Tenantiaid arbennig hwn yn ystyried y canlynol

- 1) Arolwg ar-lein yn defnyddio dulliau sefydledig a phroffedig i weld mewnwelediad ansoddol
- 2) 2 grŵp ffocws tenantiaid i gael cipolwg meintiol pellach ar sut roedd tenantiaid yn teimlo am rai o'r pynciau a godwyd yn yr arolwg – i ddilyn yr adroddiad hwn.

### Dulliau Ymchwil

1. Roedd yr arolwg yn fyw o 30 Medi – 4 Hydref 2022. Hwn oedd y Pwls byrraf i ni ei gynnal, ond fe'i hysgogwyd gan drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac mae'r pwnc yn un amserol iawn ar hyn o bryd.
2. Cyflwynwyd Pwls Tenantiaid gennym trwy lwyfan arolwg ar-lein Doopoll.
3. Gofynnodd TPAS Cymru 11 cwestiwn i aelodau cronfa ddata Pwls ac aelodau'r cyhoedd.

### Sut cafodd yr arolwg ei hyrwyddo

Fe'i hanfonwyd at denantiaid a oedd wedi cofrestru ar gyfer Pwls Tenantiaid, [ac eithrio tenantiaid y SRHP](#). Fel pob cronfa ddata arolwg hirdymor, mae rhai aelodau wedi bod ar y rhestr bostio ers 5 mlynedd, felly rydym yn gweld dirywiad yn y cyfraddau ymateb. Mae'n her cael gwared ar y rhai nad

Ydynt yn ymateb gan fod ymatebion yn ddiennw felly ni allwn eu hadnabod a'u dileu'n hawdd. Rydym yn ychwanegu aelodau newydd yn barhaus, yn fwyaf diweddar ar ôl ein Harolwg Sero Net ac Ynni Cenedlaethol ym mis Mai 2022 - felly mae ein carfan o denantiaid Pwls yn tyfu'n barhaus ac yn parhau i fod yn weithgar.

Gwelsom rywfaint o gymorth cyhoedduswydd gan landlordiaid cymdeithasol a grwpiau tenantiaid i'w tenantiaid. Mae'r dull hwn yn creu rhai gwahaniaethau amlwg mewn ymatebion tenantiaid fesul landlord yn dibynnu ar raddau'r landlord o ran ymgysylltu/hyrwyddiad.

## Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol

Fel y profwyd yn llwyddiannus gyda'n harolwg Cenedlaethol Ynni a Sero Net 2022, lansiodd TPAS Cymru ymgyrch cyfryngau cymdeithasol dwyieithog llwybr cyflym i hyrwyddo'r Pwls ar sianeli Twitter, Facebook ac Instagram.



Ystyriaeth data pwysig: Yn wahanol i'n Harolwg Blyneddol Ynni a Sero Net 2022, a'n harolwg 'Beth sy'n Bwysig' 2021, Gwrthododd Meta (*perchennog corfforaethol Facebook ac Instagram*) ein hymgyrch hysbysebion taledig y tro hwn oherwydd rheolau a roddwyd ar waith gan Meta, sy'n cyfyngu ar ymgyrchoedd/lobio a all fod yn gysylltiedig â busnes y Llywodraeth.

Mae rheolau newydd ar hysbysebu gwleidyddol ac mae ganddynt gofrestrriad arbennig a datganiad ffynhonnell cyllid ac ati. Pe na baem wedi crybwyll pam ein bod yn cynnal yr arolwg (e.e. ein chwilfrydedd ein hunain, mae'n debygol y byddai wedi pasio eu rheol. Bu inni ei ddiwygio, ond gwrthododd Meta yr hysbyseb a gwrthodwyd 3 chyflwyniad ymgyrch.)

Mae'r rhwystr hwn yn berthnasol i'r ymchwil hwn, gan fod TPAS Cymru wedi dysgu o'n harolwg Cenedlaethol Ynni a Sero Net 2022 bod yr hysbysebion hyrwyddo taledig hyn ar Instagram yn llwyddo i dargedu tenantiaid iau (18-30 oed) nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebiadau traddodiadol yn y sector tai. Maent wedi bod mor llwyddiannus yn y gorffennol wrth ymgysylltu â thenantiaid ifanc nad ydynt yn ymgysylltu eraill fel bod y sampl yn agosáu at or-gynrychiolaeth. Felly, heb yr offeryn hyrwyddo hwn, nid oedd y gynulleidfa iau hon rhwng 18 a 30 oed mor fawr ag yr ydym wedi arfer ag yn ein gwaith.

Er gwaethaf y cyfyngiad hwn, gwelsom ganlyniad a oedd yn cynrychioli pob sir ac oedran ledled Cymru ac roedd ein hyrwyddiad cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu i gynulleidfa fawr o LCC a thenantiaid i ymgysylltu â'r arolwg.

### **Crynodeb o'r ymateb**

Ymatebodd cyfanswm o 353 o denantiaid i'r arolwg dros 4 diwrnod rhwng 30 Medi a 4 Hydref 2022. Roedd yr ymatebion yn cynnwys pob cymdeithas dai ac Awdurdod Lleol sy'n cadw stoc yng Nghymru.

Roedd y gyfradd ymateb ddyddiol yn gynydd o 54% ar ein Pwls blaenorol ym mis Mai 2022. Mae'r cynnydd aruthrol hwn yn dangos pa mor bwysig yw'r mater hwn i denantiaid ar hyn o bryd a faint y maent am sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru yn clywed eu llais. Gyda mwy o amser gallem fod wedi cyrraedd llawer mwy o bobl.

Fe wnaethom hefyd gynnal 2 Grŵp Ffocws gyda 16 o denantiaid yn mynychu. **Gan sicrhau bod 369 o leisiau yn cael eu clywed yn yr adroddiad hwn.**

### **Eitemau eraill o bwys cyn i ni barhau:**

Mae gan dai cymdeithasol drawstoriad o gymdeithas, ac mae llawer ohonynt yn cael trafferth. Yn yr un modd â chenchedloedd eraill dros y blynyddoedd diwethaf (sy'n aml yn cael eu hysgogi gan y cyfryngau), rydym yn gweld rhywfaint o adlach gan denantiaid i werthoedd tai cymdeithasol a pholisiau'r Llywodraeth boed yng Nghymru neu San Steffan.

- Cafwyd rhai sylwadau gan denantiaid o gwmpas *'Gofalu am ein rhai ni ein hunain yn gyntaf'* a herio polisi dyrannu ac ati. Nid dim ond adlach tenantiaid arferol (lleiafrifol) yn erbyn mudwyr ac ati yw hyn, ond hefyd pobl iau mewn ardaloedd gwledig sy'n cael trafferth cael tai digonol mewn ardaloedd AirB&B, ail gartrefi a mudo ymddeol. Mae hyn yn adlewyrchu data a gyflwynwyd gan sefydliadau trydydd sector eraill ym maes tai yn ystod y misoedd diwethaf, megis Sefydliad Bevan.
- Nodwyd hefyd nad yw holl weithgareddau Landlordiaid yn cael eu gwerthfawrogi. Cafodd adlach ar gyflog y Bwrdd ei godi droeon yn yr arolwg a'r grwpiau ffocws *'..mae £120k y gellid ei ddefnyddio i helpu gydag ôl-ddyledion tenantiaid ...'* yn ogystal â chymorth cymunedol ehangach *'mae ganddyn nhw arian i nodd i Pride ond nid i drwsio fy ffenestri ayyb.'*

### **Argymhellion TPAS Cymru:**

1. Mae angen i renti fod yn fforddiadwy, a'u gosod mewn ymgynghoriad â thenantiaid,
2. Dylai'r ymgynghoriad glywed gan amrywiaeth eang o denantiaid
3. Landlordiaid i fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch eu proses gosod rhent a'u penderfyniadau
4. Landlordiaid i ddangos Gwerth am Arian (VFM) yn well i denantiaid
5. Landlordiaid i gynnwys tenantiaid yn well wrth fesur ac asesu Gwerth am Arian
6. Tenantiaid i gael eu cefnogi a'u galluogi i graffu ar gynigion a phenderfyniadau gosod rhent


## Dadansoddiad o'r Arolwg

### Sefydlu pwy ymatebodd

#### C1) Pa fath o denant ydych chi?

*Noder: Roedd yr arolwg hwn ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol yn unig ac ni chynhwyswyd unrhyw ymatebion SRhP.*

Mae'r gymhareb LCC i Awdurdod Lleol (72% i 23%) yn nodweddiadol o'r hyn a welwn sy'n adlewyrchu sector sy'n cael ei ddominyddu gan Gymdeithasau Tai a'u gallu i wneud cyfathrebiadau cysylltiedig â thai sy'n ymateb yn gyflymach, o gymharu ag Awdurdodau Lleol sydd â strwythurau rheoli mwy canolog ar gyfer cyfathrebu a marchnata. Mae'r arolwg hwn hefyd yn cynrychioli lleisiau nifer fach o denantiaid tai â chymorth a lleisiau tenantiaid mewn tai a fyddai'n dod o dan y categori 'Arall'. Mae'r categori arall yn cynrychioli cymysgedd o denantiaid rhanberchnogaeth neu denantiaid sy'n aneglur ynghylch perchnogaeth eu llety a all gael ei ddarparu gan sefydliad cymorth neu elusen.



### Cynrychiolaeth ar draws Cymru

#### C2) Ym mha Sir/Awdurdod Lleol ydych chi'n byw?

Roedd gan bob ardal awdurdod lleol ddigon o ymatebion gan denantiaid ac felly mae'r cwestiwn hwn yn sefydlu bod yr arolwg yn cynrychioli tenantiaid tai cymdeithasol ledled Cymru.

**Yr ardaloedd awdurdod lleol a ymatebodd uchaf oedd Rhondda Cynon Taf (11%) ac Abertawe (9%).** Yn ogystal â'r ardaloedd trefol arferol fel Caerdydd a Chasnewydd, cawsom hefyd ymateb cryfach nag arfer gorllewin Cymru gan Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.


Yr ardaloedd a ymatebodd isaf oedd – Wrecsam (2%). Sir Ddinbych (2%) a Merthyr Tudful (2%)

Ardaloedd sy'n Ymateb Uchaf - Cymdeithasau Tai	Ardaloedd sy'n Ymateb Uchaf - Awdurdod Lleol
Rhondda Cynon Taf	Ro Morgannwg
Casnewydd	Powys
Abertawe	Abertawe

### C3) Beth yw eich oedran?


Roedd gan yr arolwg hwn gyfradd ymateb is na'r arfer gan ymatebwyr iau 18-30 o'i gymharu â'n harolygon Pwls eraill oherwydd ein hymgyrch Instagram a wrthodwyd gan Meta. Fodd bynnag, mae'r dosbarthiad hwn yn nodweddiadol o ymgynghoriad tai cymdeithasol.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr Awdurdodau Lleol yn iau na Chymdeithasau Tai.



### C4) Ydych chi'n ystyried eich bod chi neu unrhyw un yn eich cartref yn perthyn i unrhyw un o'r grwpiau canlynol heb gynrychiolaeth ddigonol?

Mae gan Tai Cymdeithasol hanes balch o ddarparu cartrefi i lawer o aelodau difreintiedig neu eithriedig o'n cymuned. Roeddem yn falch o weld lefelau ymateb da o'r nodweddion hyn.



Ar draws yr ymatebwyr, nododd 3% fod ganddynt gefndir BAME (Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig). Mae hyn yn is na chyfartaledd cenedlaethol poblogaeth Cymru o 5% (ystadegau Llywodraeth Cymru - Ionawr 2022). Mae TPAS Cymru yn cydnabod, ochr yn ochr â sefydliadau eraill, bod gwaith i'w wneud yn y dyfodol i sicrhau bod lleisiau BAME yn cael eu clywed a'u cynrychioli mewn arolygon Pwls.


Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ein galluogi i roi tystiolaeth a chynrychioli lleisiau tenantiaid ar y cyrion nad ydynt efallai wedi cael eu clywed wrth wneud penderfyniadau a pholisi tai.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a nododd eu bod yn fyddar neu'n anabl yn denantiaid o Gymdeithas Tai (71%) neu Awdurdod Lleol (27%) – ond roedd y grŵp hwn yn cynrychioli 34% o'r holl ymatebwyr.


Dywedodd 6% o'r ymatebwyr eu bod yn perthyn i'r boblogaeth LHDT+, ffigwr sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol diwethaf a gofnodwyd yng Nghymru (2019) sef 2.9%. (Ffigwr 2019 Llywodraeth Cymru).

Nododd 9% o'r ymatebwyr eu bod yn ofalwr, sydd ychydig yn is na chyfartaledd 2019 Llywodraeth Cymru sef 12%. Mae'n bosibl mai esboniad o hyn fyddai'r gogwydd oedran mwy yn yr arolwg i ymatebwyr sydd dros 60 oed.

### Ymatebion Gymdeithasau Tai i C4



### Ymatebion Awdurdodau Lleol i C4






## C5) Beth fydddech chi'n ei ddweud yw eich prif ffynhonnell incwm cartref?


Sylwadau amlwg:

1. Mae'r ffigurau hyn fwy neu lai'n unol â demograffeg tai cymdeithasol Cymru
2. Ni chawsom unrhyw ymateb ystod oedran myfyrwyr a oedd yn rhannol oherwydd eithrio rhentwyr preifat.
3. Rydym yn nodi bod 'Arall' yn uwch nag y byddem wedi'i hoffi ac yn adlewyrchu natur gymhleth incwm y cartref a'r cynnydd yn yr economi cyflogaeth gig wrth i lawer yng Nghymru symud i gymryd ail waith neu waith achlysurol / ffynonellau incwm.



Wrth edrych ar y canlyniadau gyda ffilterau doopoll gallwn sylwi ar y canlynol:

1. Roedd tenantiaid awdurdodau lleol yn amlwg yn cael eu cynrychioli'n uwch gan ymatebwyr a oedd yn gweithio o gymharu â Chymdeithasau Tai. Roedd hyn yn cael ei yrru'n rhannol gan fod oedran cyfartalog ymatebwyr ychydig yn is. Mae hyn yn caniatáu i ganlyniadau'r arolwg hwn adlewyrchu tenantiaid ar bob math o incwm.
2. Yn ôl y disgwyl, roedd gwahaniaeth mawr rhwng oedran a math o incwm.
3. Mae'r isod yn dangos dosbarthiad incwm aelwyd 'o dan 30 oed' gyda 50% o ymatebwyr yn nodi mai cyflog neu gyfuniad o gyflog a budd-daliadau cymdeithasol yw prif ffynhonnell incwm eu haelwyd. Mae yna hefyd 'Arall' amlwg sydd fel y crybwyllwyd uchod yn cynnwys pobl ag incwm afreolaidd.



4. Yn yr un modd, wrth hidlo ymatebwyr yn ôl oedran ar gyfer 'dros 60', cyrhaeddodd y rhai ar 'incwm ymddeol/pensiwn' yn bennaf 65% sy'n adlewyrchu oedranau ymddeol y


wladwriaeth yn codi - gyda phobl angen parhau mewn gwaith neu aros ar Gredyd Cynhwysol nes eu bod yn gymwys am bensiynau'r wladwriaeth.

**C6) A ydych yn ystyried eich rhent yn fforddiadwy ar hyn o bryd?**

Byddai 31% o ymatebwyr sy'n dweud nad yw'r rhent yn fforddiadwy ar hyn o bryd yn sicr yn cael ei godi gan yr argyfwng costau byw presennol lle mae gan bobl bryderon gwirioneddol ynghylch cael dau ben llinyn ynghyd.

O gymharu'n syth ag ymatebwyr Cymdeithasau Tai o gymharu ag Awdurdodau Lleol, daeth Cymdeithasau Tai allan ychydig yn fwy cadarnhaol ynghylch fforddiadwyedd presennol (61% o gymharu â 53%).

Mae ymatebwyr sydd wedi ateb 'amherthnasol' yn draddodiadol yn denantiaid sydd â chymorth lle telir rhent amdanynt, sef 11% o'r ymatebwyr.




Wrth hidlo ar oedran	Fforddiadwy	Dim yn fforddiadwy	Amherthnasol
<i>Yr holl ymatebwyr</i>	58%	31%	11%
<b>18-30</b>	80%	20%	0%
<b>31-45</b>	57%	38%	5%
<b>46-60</b>	58%	32%	10%
<b>60+</b>	58%	27%	15%

Wrth hidlo ar incwm yr aelwyd	Fforddiadwy	Dim yn fforddiadwy	Amherthnasol
<i>Yr holl ymatebwyr</i>	58%	31%	11%
<b>Credyd Cynhwysol</b>	50%	33%	17%
<b>Cyflog neu gyda CC</b>	72%	25%	3%
<b>Ymdeoliad/Pensiwn</b>	61%	25%	14%
<b>Arall</b>	48%	43%	9%

Nodyn pwysig: Wrth ystyried gwahaniaethu oedran, mae'r dadansoddiad yn dangos bod ystod oedran 18-30 yn ystyried mai eu rhent yw'r mwyaf fforddiadwy a'r ystod oedran 31-45 yn ystyried mai eu rhent yw'r lleiaf fforddiadwy.

**C7) Yn Lloegr, mae ymgynghoriad am godiad rhent o 3%, 5% neu 7% (gan fod chwyddiant tua 10%). Gan ddefnyddio 5% fel enghraifft, pa mor gyfforddus fydddech chi'n teimlo i dalu codiad rhent o 5%? (E.e. byddai rhent o £80 yr wythnos yn codi £4, £100 yr wythnos o rent o £5 ayyb)**



Dangosodd y dadansoddiad mewnwelediad diddorol:

**Canfyddiad 1: Yr ystod oedran 18-30 sy'n teimlo yr effeithir fwyaf gan hyn**

- Dywedodd 22% eu bod eisoes ag ôl-ddyledion o gymharu â chyfartaledd grŵp o 5%
- Dywedodd 34% ar wahân o'r ystod oedran hon na fyddent yn gallu talu'r codiad
- Nhw oedd y lleiaf tebygol o ddweud 'Gallaf' ar draws y 3 opsiwn 'gallwn i os...' cyntaf, ac allan or grŵ o 'Gallwn i os...' roedd ¾ roedden nhw'n gadarn eu bod eisiau eglurhad a chyfiawnhad o ble byddai'r arian yn mynd.

**Canfyddiad 2: pobl dros 60 oed sydd fwyaf cyfforddus yn talu'r cynnydd (78%) OS yw eu pensiwn neu fudd-daliadau cymorth eraill yn cael codiad priodol (cynnydd clo triphlyg ac ati)**

- Pobl dros 60 oed oedd y lleiaf pryderus ynghylch cael esboniad manwl gan eu landlord.
- Nid oedd yr un yn honni bod ganddynt ôl-ddyledion

**Canfyddiad 3 - ffynhonnell incwm y cartref yn gwneud gwahaniaeth mawr i allu tenantiaid i amsugno cynnydd o 5%.**

- Roedd 81% o dderbynwyr CC yn gyfforddus i dalu'r cynnydd o 5% OS oedd eu Credyd Cynhwysol yn cael ei godi hefyd
- Roedd 82% o bobl ar incwm pensiwn hefyd yn teimlo'r un fath OS oedd y pensiwn yn cael ei godi hefyd.
- Mae hyn yn cymharu â 65% is o'r rhai ar gyflog neu gymysgedd o gyflog a budd-daliadau ategol
- Dim ond 54% sy'n gyfforddus yn y categori 'Arall' (sy'n cynrychioli'r 'economi gig' yn ein barn ni), ac fel y categori 18-30 oedd roedden nhw eisiau esboniad da o pam a beth fydden nhw'n ei gael. I'r gwrthwyneb, dyma oedd y categori uchaf o deimladau na allent dalu (33%) neu eu bod eisoes mewn ôl-ddyledion (12%).

### **Sylwadau ar 'Gallwn i dalu hynny, er mwyn cynnal gwasanaethau.'**

- Does dim ots gen i dalu cynnydd yn y rhent pe bai'r atgyweiriadau'n cael eu cwblhau ar y diwrnod heb oedi.
- Rwyf wedi ateb y gallaf fforddio. Fodd bynnag, mae fy holl rent wedi'i dalu ymlaen llaw gyda'm Credyd Cynhwysol. Pe na bawn i, ni fyddwn byth yn gallu ei fforddio.
- Byddai 5% yn dderbyniol ac yn fforddiadwy. Mae fy ffrindiau mewn eiddo rhent preifat yn talu £800 y mis tra byddaf i yn talu £500 am eiddo o'r un maint.
- Mae'r ddau ohonom yn gweithio'n llawn amser felly gallem fforddio 5%.
- Mae gan Denantiaid a Landlordiaid gyfrifoldeb i'w gilydd. Fel unrhyw berthynas arall, rhaid i ni ymddwyn yn deg ac yn gyfrifol tuag at ein gilydd. Yn yr hinsawdd bresennol, byddai cynnydd rhent o 5% yn rhesymol.

### **Sylwadau ar 'Gallwn dalu hwn pe bai fy landlord yn gliriach o ran i ble y byddai'r arian ychwanegol yn mynd'**

- Cyn belled â bod gwasanaethau yn eu lle a'n bod ni'n cael rheswm dilys i'r rhent gynyddu mae'n rhaid ei dalu.
- Rwy'n teimlo ein bod yn cael llai o gefnogaeth a chynnal a chadw adeiladau felly byddai angen i mi wybod y byddai'r gwasanaethau hyn yn gwella cyn ystyried derbyn unrhyw gynydd mewn rhent.
- Dydw i ddim yn teimlo bod y gymdeithas dai yn bod yn onest gyda'u taliadau gwasanaeth ar hyn o bryd.

### **Sylwadau ar 'Gallwn ei dalu os bydd Credyd Cynhwysol / Pensiynau ac ati hefyd yn cael eu codi'**

- Rwy'n cael trafferth dal i dalu biliau fel pawb arall ar hyn o bryd. *Mae'n rhaid i mi gael to uwch fy mhen ond bydd yn rhaid i mi ddewis i fwyta neu i gadw'n gynnes.* Mae'n gymaint o drafferth ceisio jyglo taliadau ar hyn o bryd ac ni fydd cynyddu rhent ar hyn o bryd yn helpu. Dydw i ddim yn gwybod sut rydw i'n mynd i ymdopi ac eisoes yn dioddef o iselder a phryder. Mae'n gymaint o bryder.
- Rwy'n gweithio ar hyn o bryd. Nid yw fy nghyflog yn wych. Fi yw'r tlawd sy'n gweithio. Os bydd yn mynd yn ei flaen byddaf yn ei chael yn anodd talu'r hyn a gynigir ac unrhyw godiad costau byw.
- Prin yn ymdopi ydw i, byddai arian pensiwn ychwanegol yn helpu ond byddai talu mwy o rent yn golygu cwtdgi ar fwyd a gwres.

### **Sylwadau ar 'Ni allwn dalu'r codiad ychwanegol hwnnw'**

- Oni bai bod fy nghyflog yn codi, sut allaf dalu'r cynnydd? Ni fyddai'n gwybod tan y flwyddyn nesaf os caf godiad cyflog ac mae'n annhebygol o fod mor uchel â 5%
- Mae rhenti yma ar yr un lefel â landlordiaid preifat ac mae'n dod mor anodd talu'r rhent ac mae hynny'n peri pryder mawr. Os codir y rhent eto rwy'n poeni am ddod yn ddigartref.
- Gyda chostau byw yn uwch ar hyn o bryd, dylid rhewi rhenti am 2 flynedd
- Mae gan bawb hawl i gartref. Mae rhenti cynyddol yn gwadu hyn yn gyson i bobl.
- Mae rhent cymdeithasol wedi dod yn anfforddiadwy pan fyddwch yn ychwanegu Treth y Cyngor a chyfleustodau. Mae Cyfanswm Cost Meddiannaeth yn fwy o ddiffiniad o fforddiadwyedd na Rhent yn unig.

### **Sylwadau ar 'Rwyf eisoes mewn ôl-ddyledion'**

- Mae costau byw yn cynyddu, trwy godi'r rhent byddwch yn achosi i fwy o bobl fynd i ôl-ddyledion rhent.
- Rydym wedi insiwleiddio ein tai, peth da. Fodd bynnag, bydd cost bresennol tanwydd yn negyddu llawer o'r arbedion a wneir drwy ddefnyddio llai.
- Teimlaf fod tai cymdeithasol eisoes yn llawer rhatach na'r sector preifat felly nid ni fyddai'n cael ein taro waethaf gyda chynnydd mewn rhent.


## C8) Mae rhai landlordiaid yn wynebu penderfyniadau anodd wrth geisio cadw codiadau rhent yn isel tra'n diogelu a lleihau gwasanaethau

Nodyn 1: Cyn i ni edrych ar y canlyniadau, rydym yn dymuno egluro rhywbeth. Yn fwriadol, ni wnaethom gynnwys opsiynau fel gwasanaethau hanfodol allweddol fel **atgyweiriadau, gwaith wedi'i gynllunio a gwiriadau diogelwch**. Mae angen iddynt ddigwydd p'un a ydych yn landlord cymdeithasol neu breifat.

Roeddem eisiau archwilio yn y cyfnod heriol hwn, gwerth y gwasanaethau **eraill** y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu darparu - a sut maent yn cael eu hystyried.

Nodyn 2: o'r grwpiau ffocws, gwelsom rywfaint o ddryswch ynghylch yr opsiwn o '**Gwasanaethau Gofal a Chymorth**' gan fod hyn yn golygu pethau gwahanol i bobl ac yn cynnwys gofal a chymorth allanol. Credwn fod hyn wedi arwain at orddatgan y ffigur yn y canlyniadau.

### Pa rai o'r canlynol fyddai gennych chi'r PRYDER MWYAF o'u gweld yn cael eu TORRI? (dewiswch 3)



### Sylwadau allweddol

- O ystyried yr argyfwng ynni sy'n bodoli ar hyn o bryd, mae tenantiaid yn gwerthfawrogi prosiectau i leihau eu biliau ynni fwyaf
- Cafodd Gofal a Chymorth sgôr uchel hefyd ond credwn fod hynny wedi'i orddatgan fel yr eglurwyd uchod.
- Yn ôl y disgwyl o fewnwelediad arall, nid yw adeiladu cartrefi newydd yn cael ei werthfawrogi cymaint gan denantiaid presennol ag y gallai'r sector ei obeithio. Nid yw'r sector cyfan bob amser wedi llwyddo i gyfleu pa werth neu fudd y mae'n ei roi i denantiaid presennol.
- Mae cefnogaeth dda i werth y gwasanaethau ychwanegol y mae tai cymdeithasol yn eu darparu megis cyngor ariannol a gwelliannau Cymunedol
- Roedd y sylwadau yn 'Arall' (10%) yn ymwneud yn gyffredinol â rhwystredigaeth ynghylch atgyweiriadau

### Pan fyddwn yn dadansoddi hyn:

Nid oedd unrhyw wahaniaeth mawr mewn agwedd o ran gwerth tenantiaid yn ôl deiliadaeth – roedd tenantiaid awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn debyg mewn sawl categori. Yr unig wahaniaeth

oedd bod tenantiaid awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi prosiectau arbed ynni yn uwch, ac ychydig yn fwy cefnogol i adeiladu cartrefi newydd.

**Oedran** yw lle mae agweddau yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf o ran gwerth tenantiaid:

- Mae pobl iau yn gwerthfawrogi cyngor ariannol yn sylweddol (55% o gymharu â 28% ar gyfartaledd) a chyfleoedd hyfforddi (33% o gymharu â 9%)
- Mae angen llai o gyngor a hyfforddiant ar arian ar bobl dros 60 oed ond nid yw mor eithafol i'r gwrthwyneb â 18-30..
- Roedd pobl iau yn gweld llai o werth mewn gwella cymunedol (11% o gymharu â chyfartaledd o 27%).
- Mae cymorth gwella cymunedol ar ei uchaf yn y dosbarthiadau canol oed (32%) a oedd yn adlewyrchu mewn sylwadau am ddiogelwch, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ansawdd cymdogaethau arnynt eu hunain fel unigolion ac fel rhieni aelodau iau o'r teulu.
- Prin y symudodd y rhan fwyaf o grwpiau oedran o'r cyfartaledd grŵp o ran gwerthfawrogi cartrefi newydd (29%) ac eithrio pobl iau a oedd yn ei werthfawrogi'n llai (22%)

**Pan fyddwn yn hidlo ar unrhyw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol:**

- Roedd tenantiaid a nododd eu bod yn dod o gefndir BAME yn gwerthfawrogi cyfleoedd hyfforddi yn fawr (22% o gymharu â 9% ar gyfartaledd)
- Roedd tenantiaid a nododd fod ganddynt anabledd yn gwerthfawrogi mentrau arbed ynni yn uwch (62% o gymharu â 50% ar gyfartaledd)
- Roedd tenantiaid a nododd nad oedd Cymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt yn gwerthfawrogi hyfforddiant yn fawr (31% o gymharu â 9% ar gyfartaledd) a chynghor ariannol (37% o gymharu â 28%)

**Pan gaiff ei hidlo yn ôl math o incwm cartref ar yr hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi:**


Yn gyffredinol, ni welsom lawer o amrywiadau arwyddocaol. Er enghraifft, roedd derbynwyr a oedd yn cael Credyd Cynhwysol yn dilyn y cyfartaledd cyfunol cyffredinol yn agos iawn.

Eithriadau amlwg oedd:

- Roedd y rhai yr oedd eu haelwyd yn incwm cyflog yn bennaf yn gwerthfawrogi cyngor ariannol yn uwch (43% o gymharu â 28%) a chyfleoedd hyfforddi (18% o gymharu â 9%). Roedd hyn ar draul gwella cymunedol + gofal a chymorth.
- Roedd tenantiaid wedi ymddeol yn gwerthfawrogi prosiect arbedion ynni yn uwch na'r cyfartaledd (57% o gymharu â 50%)


**C9) Mae landlordiaid cymdeithasol wedi cyflwyno tystiolaeth i Lywodraeth Cymru y bydd angen torri gwasanaethau oni bai bod rhenti'n cael eu codi yn unol â chwyddiant.**

Gallai hyn olygu y byddai'n rhaid cwtogi neu dorri rhai gwasanaethau. Po isaf y codiad rhent, y mwyaf yw difrifoldeb y toriadau. Mae chwyddiant oddeutu 10%. Faint ydych chi'n meddwl y dylai rhenti godi?




**Pan fyddwn yn torri'r data i lawr:**

1) Pan fyddwn yn hidlo ar y rhai a oedd yn meddwl bod eu rhent yn fforddiadwy nawr, maent yn fwy parod i dderbyn codiad rhent uwch.



2) Nid yw'n syndod bod y rhai sy'n ystyried eu rhent yn anfforddiadwy ar hyn o bryd, yn llai parod i dderbyn codiadau rhent.




Gan ei bod yn debygol y bydd llawer o ddiddordeb yn y cwestiwn hwn  
 - dyma tabl o RHAi o'r hidlenni a redwyd gennym i chwilio am wahaniaethau.

<b>Beth fyddai tenantiaid yn ei ddewis fel codiad rhent?</b>	<b>0%</b>	<b>3%</b>	<b>5%</b>	<b>7%</b>
<b><u>Pob Tenant</u></b>	41%	35%	29%	3%
<b>Cymdeithasau Tai</b>	34%	40%	20%	6%
<b>Awdurdodau Lleol</b>	41%	35%	21%	3%
<b>Oed 18-30</b>	22%	56%	11%	11%
<b>31-45</b>	29%	36%	31%	4%
<b>46-60</b>	42%	36%	17%	5%
<b>Dros 60</b>	34%	42%	19%	5%
<b>BAME</b>	11%	67%	11%	11%
<b>Anabl</b>	38%	42%	17%	3%
<b>Gofalwr</b>	21%	46%	29%	4%
<b>Di-Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf</b>	19%	56%	19%	6%
<b>Credyd cynhwysol</b>	39%	34%	21%	6%
<b>Incwm cyflogedig</b>	30%	46%	21%	3%
<b>Wedi ymddeol</b>	28%	47%	20%	5%
<b>Arall</b>	42%	33%	19%	6%



**C10) Mae TPAS Cymru yn galw ar landlordiaid cymdeithasol i gael sgysiau agored brys gyda thenantiaid am osod rhent a beth mae lefelau gwahanol o godiadau yn ei olygu o ran diogelu gwasanaethau a/neu dorri gwasanaethau.**

**A fydddech chi'n mynychu sgysiau o'r fath pe bai dewis o opsiynau i'w mynychu (h.y. wyneb yn wyneb ac ar-lein, yn ystod y dydd a gyda'r nos ac ati).**



Fel y disgwylwch gan TPAS Cymru, rydym yn credu y byddai gwell deialog yn helpu landlordiaid a thenantiaid i gydweithio drwy'r argyfwng hwn. Roeddem wrth ein bodd bod cefnogaeth gref i hyn:

**Fe wnaethom hidlo ar draws Daliadaeth, Oedran, Incwm Aelwydydd, grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.**

Yr oedd y cwestiwn hwn yn un a gafodd y gefnogaeth fwyaf cyson, pa fath bynag o denant ydoedd. Pawb yn gryf o blaid eisiau bod yn rhan o'r sgws honno heb fawr o amrywiad i'r cyfartaledd cyfunol.

**Allan o 20+ o hidlwyr dim ond 2 wahaniaeth amlwg oedd yn sefyll allan:**

- 1) Rhoddodd y rhai a uniaethodd â chefnidir BAME ganlyniad mwy cadarnhaol. (89% o gymharu â 68% ar gyfartaledd)
- 2) Y rhai a nododd nad Cymraeg neu Saesneg oedd eu hiaith gyntaf oedd y lleiaf brwdfrydig (58% o gymharu â 68% ar gyfartaledd) ac er eu bod yn dal yn gadarnhaol – gallai hyn adlewyrchu hygyrchedd rhai dulliau ymgysylltu.

**C11) Yn olaf, a oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am Osod Rhenti yr hoffech i'r Gweinidog ei ystyried?**

Cawsom gannoedd o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ni allwn eu defnyddio i gyd, ac roedd adran fach nad oedd yn sifil nac yn briodol. Roedd y dyfyniadau isod yn ymatebion uniongyrchol gan denantiaid i gwestiwn blaenorol. Nid ydym wedi golygu unrhyw ran o'r sylwadau isod ac rydym wedi'u gadael yn eu ffurf wreiddiol er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed yn wirioneddol yn yr adroddiad hwn.

**Daeth 4 thema i'r amlwg o'u hymatebion:**

- 1) Mae tenantiaid yn credu bod yn rhaid i fudd-daliadau a thaliadau lles cymdeithasol godi yn unol â chwyddiant ac yn unol ag unrhyw godiadau rhent.
- 2) Dywedodd tenantiaid dro ar ôl tro eu bod am feithrin perthynas â'u landlord sy'n canolbwyntio ar werthoedd tryloywder, cyfathrebu ac ymddiriedaeth ynghylch unrhyw godiadau neu incwm ychwanegol y gallai landlord ei dderbyn.

- 3) Mae tenantiaid eisiau i'w landlord ymgynghori'n uniongyrchol â nhw cyn i unrhyw newidiadau gael eu rhoi ar waith – maen nhw am deimlo eu bod yn cael eu clywed yn eu cymuned dai.
- 4) Ar gyfer tenantiaid gyda'u prif incwm yn dod o gyflog, hoffent weld yr isafswm cyflog yn cael ei gynyddu yn unol â chyflog cyflog byw, fel nad ydynt yn cael trafferth talu eu rhenti.

#### Ymatebion uniongyrchol gan denantiaid:

- Rydym yn denantiaid, mae angen i'n lleisiau gael eu clywed.
- Dylai rhenti godi, ond mae'n rhaid i fudd-dal tai gymryd hyn i ystyriaeth. Mae derbynwyr budd-dal tai fel arfer ar incwm sefydlog, felly mae'n rhaid i unrhyw godiad rhent gael ei ddilyn gan addasu'r budd-dal tai yn unol â hynny.
- Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod landlordiaid yn ymgynghori â'u tenantiaid a bod yn agored ac yn onest.
- Dylid codi rhenti i gadw gwasanaeth hanfodol megis tai cymdeithasol, ond mae angen i gyrff llywodraethu sylweddoli na ellir gwneud hyn os yw cyflogau neu gredyd cynhwysol yn codi ynghyd â Rhenti, neu efallai gadael i bobl gadw mwy o'r hyn y maent yn ei ennill os ydynt. gweithio mwy o oriau mewn cyflog.
- Prisiau rhent preifat sy'n gosod pobl allan o gartrefi yn y lle cyntaf. Felly nid yw gwneud yr un peth â thai cymdeithasol yn helpu unrhyw un sy'n dibynnu arnynt am gartrefi â phrisiau fforddiadwy
- Nid oes cyfathrebu clir ynglŷn â beth mae'r gymdeithas dai yn gwario'r arian arno i wella safonau'r cartrefi.
- Ystyriwch yn ofalus iawn ynghylch codi rhent pobl gan na fydd y bobl sy'n gweithio yn gallu ymestyn eu henillion llawer mwy, byddwn mewn dyled yn y pen draw, ni chawsom unrhyw help trwy covid gyda'n rhenti ac rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghosbi am weithio.
- Ni all fod yn 0% yn ôl y si, byddai hyn yn ddiofal mewn cymaint o ffyrdd.
- Bydd y cynnydd mewn rhenti wastad yn bwynt pryder er a fyddai'n dda i'r tenant hoffem gael y cyfle i fynychu fforwm agored lle cawn gyfle i annerch y gweinidog ac uwch aelodau eraill i ofyn cwestiynau.
- Mwy o dryloywder ynghylch pam mae angen codi rhent a sut mae pob busnes yn lleihau eu costau eu hunain.

#### Sylwadau ychwanegol o'r 2 grŵp ffocws (heb ei adlewyrchu yn y prif adroddiad)

1. Roedd nifer o bensiynwyr am ei gwneud yn glir nad yw pawb yn cael codiadau awtomatig. Nid yw tenantiaid sydd â chynilion personol neu gynlluniau pensiwn preifat yn gymwys i gael credydau pensiwn.
2. Roedd tenantiaid eisiau gwybod mwy am yr hyn a ddigwyddodd yn Lloegr pan gafodd rhenti'i rhewi. *[Noder: roedd hyn yn ystod cyfnod chwyddiant isel, felly roedd unrhyw effaith yn is]*
3. Roedd tenantiaid yn dangos pryder ynghylch cytuno ar godiadau rhent heb wybod beth arall yr effeithir arno eto? Er enghraifft, Taliadau Gwasanaeth, Treth y Cyngor ac ati = heb wybod eto am unrhyw godiad yn yr isafswm cyflog, budd-daliadau ac ati.
4. Nododd y tenantiaid fod gan adeiladau newydd fwy o fuddion, eu bod yn rhatach i fyw ac yna gyda gwell insiwleiddio, systemau gwresogi ac ati. Pam ydym ni'n talu'r un rhent â nhw?

#### **Argymhellion TPAS Cymru:**

1. Mae angen i renti fod yn fforddiadwy, a'u gosod mewn ymgynghoriad â thenantiaid,
2. Dylai'r ymgynghoriad glywed gan amrywiaeth eang o denantiaid
3. Landlordiaid i fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch eu proses gosod rhent a'u penderfyniadau
4. Landlordiaid i ddangos Gwerth am Arian (VFM) yn well i denantiaid
5. Landlordiaid i gynnwys tenantiaid yn well wrth fesur ac asesu Gwerth am Arian
6. Tenantiaid i gael eu cefnogi a'u galluogi i graffu ar gynigion a phenderfyniadau gosod rhent

## Cydnabyddiaethau

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'n panel Pwls Tenantiaid am eu hysbrydoliaeth barhaus a'u hymrwymiad i gymryd rhan yn ein harolygon. Mae eich mewnbwn yn cael ei werthfawrogi'n wirioneddol ac mae'n helpu i lunio dyfodol tai.

Hoffem hefyd ddiolch i Lywodraeth Cymru am ariannu TPAS Cymru fel sefydliad yn rhannol ac i Wales & West am y prif nawdd trwy gydol y flwyddyn.

Dyma'r ail o arolwg Sero Net arfaethedig ar agweddau tenantiaid. Rydym yn cydnabod bod modd mireinio a gwella pellach yn flynyddol a byddem yn croesawu unrhyw sylwadau.

### Am TPAS Cymru



Mae TPAS Cymru wedi cefnogi tenantiaid a landlordiaid yng Nghymru ers dros 30 mlynedd i ddatblygu cyfranogiad tenantiaid a chymuned effeithiol trwy hyfforddiant, cefnogaeth, prosiectau ymarferol a datblygu polisi. Yn lleol rydym yn cefnogi grymuso cymunedau trwy gyngor ymarferol, cefnogaeth, hyfforddiant a gwaith prosiect. Ar lefel y Llywodraeth, rydym yn cyfrannu at newidiadau polisi trwy weithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod llais y tenant yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.



- i) Pwls Tenantiaid yw llais tenantiaid yng Nghymru. [www.tpas.cymru/ynghylch/pwls-tenantiaid](http://www.tpas.cymru/ynghylch/pwls-tenantiaid) Fe'i crëwyd gan TPAS Cymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Ein nod yw:
- ii) Canfod beth sydd bwysicaf i denantiaid
- iii) Rhyddhau arolygon rheolaidd
- iv) Cynnal rafflau gwobrau i wobrwyo pobl sy'n cymryd rhan.

Defnyddir canlyniadau ein harolygon gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid, ac sy'n helpu i wneud tai yng Nghymru yn fwy diogel a thecach.

### Noddwyr Llais Tenantiaid



Mae Pwls Tenantiaid yn rhan o raglen waith sy'n ceisio cynyddu llais tenantiaid. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Grŵp Pobl sy'n noddi'r gwaith hwn.